

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC  
Prif Weinidog Cymru

27 Medi 2018

Annwyl Brif Weinidog,

### **Hub Cymru Affrica – cais am ragor o wybodaeth**

Fel rhan o 'Cymru yn y Byd: ymchwiliad i ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at faterion allanol', cymerwyd dystiolaeth gennym ar raglen Hub Cymru Affrica yn ystod tymor yr haf. [Mae trawsgrifiad o'r sesiwn ar gael ar wefan y Cynulliad.](#)

Ers ei lansio yn 2006, mae'n amlwg i ni fod rhaglen Cymru o Blaid Affrica wedi bod yn rhan bwysig o gyfraniad Cymru at ymgyrch ehangach y Cenhedloedd Unedig i leddfu tlodi a hyrwyddo datblygu cynaliadwy o gwmpas y byd.

Yn sgil ein sesiwn dystiolaeth gyda rhanddeiliaid, a'n cylch gwaith ehangach i drafod goblygiadau Brexit ar gyfer cysylltiadau allanol Cymru a Llywodraeth Cymru, rydym yn ysgrifennu i fynegi'r farn, y cwestiynau a'r ceisiadau am eglurhad a ganlyn sydd wedi codi o ganlyniad i'n gwaith.

### **Rhaglen Cymru o Blaid Affrica**

Rydym yn nodi mai cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer rhaglen Cymru o Blaid Affrica yw £860,000 a bod y swm hwn wedi parhau i fod yn sefydlog ers y deng mlynedd diwethaf. Rydym yn deall, o'r dystiolaeth lafar a gafwyd, fod y trefniadau ariannu, a'r ffordd y caiff y cyfanswm o £860,000 ei ddyrannu, wedi newid. Ers mis Ebrill 2018, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sydd bellach yn gyfrifol am



benderfyniadau ariannu sy'n ymwneud â chynllun grantiau bach Cymru o Blaid Affrica, sef £230,000, a Hub Cymru Affrica sy'n gyfrifol am gyngor technegol.<sup>1</sup>

Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd Cat Jones o Hub Cymru Affrica wrthym y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o dryloywder ynghylch sut y caiff cyfanswm cyllideb flynyddol rhaglen Cymru o Blaid Affrica ei ddyrannu a'i wario.<sup>2</sup>

Wrth sôn am sut y bu'r cynllun yn gweithredu o'r blaen, dywedodd Cat Jones y canlynol wrthym:

---

“At the moment, we are responding to the funding bid that was put out by Welsh Government, which came with a series of activities. So, within the application form that we filled out, there wasn't a strategic direction as such, there wasn't an overview of strategy, but there was a list of activities to be completed”.

---

At hynny, dywedodd Ms Jones y dylid meddwl ymhellach am sut y gallai strategaeth ryngwladol ar gyfer Cymru edrych.<sup>3</sup>

O ran mesur cynnydd a llwyddiant, clywsom fod gan Hub Cymru Affrica gylch cyfarfodydd rheolaidd, gan gynnwys adolygiadau chwarterol, â swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni y gallai diffyg strategaeth gyffredinol beri anawsterau ar gyfer mesur effeithiolrwydd yr arian a gaiff ei wario. At hynny, nid yw'r ystod o fesurau a nodwyd gan dystion yn rhoi sicrwydd i ni fod sefydliadau darparu'n mesur canlyniadau (yn hytrach na gweithgareddau) yn ddigon cadarn.

Felly, byddem yn croesawu eglurhad gennych ar y canlynol:

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, '[£230,000 ar gyfer prosiectau i wella bywydau pobl yn Affrica](#)' - 27 Ebrill 2018

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, Paragraff 149 - 25 Mehefin 2018

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 94 - 25 Mehefin 2018



- a fydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnal adolygiad o'i strategaeth gyffredinol ym maes datblygu rhyngwladol;
- a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried datblygu ymagwedd fwy penodol at ei gweithgarwch datblygu rhyngwladol, gan gynnwys cyfyngu ar ei gwmpas daearyddol (yn unol ag enghraifft rhaglen yr Alban Malawi);
- sut rydych yn rhagweld y bydd y trefniadau cyllido newydd yn gweithredu'n ymarferol dan nawdd WCVA, gan gynnwys eich syniadau ynghylch sut y gellir mesur canlyniadau'n well yn rhaglen Cymru o Blaid Affrica.

Byddwn hefyd yn trafod rhai o'r themâu hyn yn fanylach yn ail ran ein hymchwiliad i berthynas Cymru ag Ewrop.

### **Gweithgarwch Masnach Deg Cymru**

Rydym yn falch o statws Cymru fel Cenedl Masnach Deg. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod Masnach Deg Cymru wrthi'n cynnal adolygiad. Dywedodd Aileen Burmeister, Masnach Deg Cymru, y canlynol wrthym:

---

“The original criteria were set over 12 years ago, and they’re looking a little bit worse for wear. So, there was a meeting in 2016 in Glasgow with these different nations and regions, and we’re hosting another meeting in Cardiff in September, and we’re going to be having another talk about what a Fairtrade Nation means, what that looks like, what it could mean in the future, and we’re going to be feeding in the results of our review to that”.<sup>4</sup>

---

Felly, gofynnwn i chi amlinellu pa rôl a fydd gan Lywodraeth Cymru yn yr adolygiad, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod ymysg y gwledydd blaenllaw yn y maes hwn yn y dyfodol.

---

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 91



Yn ogystal, rydych yn ymwybodol ein bod wrthi'n gwneud gwaith ar oblygiadau polisi masnach y DU yn y dyfodol i Gymru a byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw yn ystod y tymor presennol.

### **Perthynas â'r setliad datganoli**


Rydym yn nodi bod y setliad datganoli newydd – fel y'i hamlinellir yn Neddf Cymru 2018 – yn nodi bod cysylltiadau rhyngwladol, rheoleiddio masnach ryngwladol a chymorth a chydweithredu datblygu rhyngwladol yn faterion y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad (er bod gan y Cynulliad gymhwysedd i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU ar gyfer Cymru, mewn meysydd polisi datganoledig). Rydym hefyd yn nodi bod pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru yn y maes hwn, o dan Ddeddf Datblygu Rhyngwladol 2002 y DU, wedi'u cyfyngu o ran cwmpas a bod arnynt angen caniatâd ymlaen llaw gan y Swyddfa Dramor cyn y caiff Gweinidogion Cymru eu defnyddio.

Clywsom gan Cat Jones y gallai fod yn adeg gyfleus i Lywodraeth Cymru drafod â San Steffan (a Whitehall) yr hyn yr hoffai fwrw ymlaen ag ef ym maes datblygu rhyngwladol yn y cyd-destun hwn.<sup>5</sup>

Yn sgil hyn, byddem yn croesawu eglurhad gennych a yw Llywodraeth Cymru wedi codi'r mater am bwerau Cymru ym maes datblygu rhyngwladol yng nghyd-destun y setliad datganoli newydd gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU.

Byddwn yn croesawu ymateb i'n llythyr erbyn 8 Tachwedd 2018.

Yn gywir,



David Rees AC

---

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 102



Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

